
Pris: 50c

# Papur Pawb

Hydref 2024 Rhif 502




"Meddylia, fydd gan Bodlondeb a Thregerddan ddim gobaith gweld can mlynedd!"

tud 4 Ruth Jên

tud 6-7 Ysgol Tal-y-bont

tud 8 Yn NATURiol

tud 12 Rhwyfo

# Dathlu Canmlwyddiant y Neuadd

**Ganrif yn ôl yr oedd cymunedau ledled Cymru yn codi neuaddau pentref er mwyn coffáu aberth y bechgyn a'r merched a fu farw yn y Rhyfel Mawr, ac nid oedd Tal-y-bont a'r cyffiniau yn eithriad. Ar ôl codi'r neuadd goffa gosodwyd cofebau ar y muriau y tu mewn i gofio am frodorion y cylch a laddwyd mewn dau Ryfel Byd. Roedd y neuadd yn gofadail deilwng ynddi ei hun wrth gwrs, ond prif bwrpas yr adeilad oedd bod yn adnodd cyhoeddus i'w ddefnyddio er lles pawb. Dyna pam yr oedd y dathliadau a gynhaliwyd ddechrau'r mis i gofio a dysgu am gefndir codi'r adeilad yn 1924 yn gyfle i ddathlu bod y neuadd yn ei chanfed flwyddyn yn parhau i fod yn ganolbwynt i fywyd cyhoeddus yr ardal.**

Mae'n ganolfan gymdeithasol werthfawr sy'n rhoi cyfle i'r ifanc a'r hen ddod at ei gilydd i gynnal partïon pen-blwydd, chwarae pêl-droed ac ymarfer canu ac actio; cynnal cyfarfodydd y Cyngor Cymuned, y Cwtsh Cynnes, Merched y Wawr, Pwyllgor y Sioe, y Clwb Ffermwyr Ifanc a'r Clwb Ieuenctid; cynnal pwyllgorau, te angladdau a phleidleisio mewn etholiadau; cynnal eisteddfod a chyngherddau'r ysgol, pantomeim, dosbarth pilates, hanner awr o Adloniant y CFfI, Ffair Nadolig y neuadd, noson Hwyl Ddewi, recordio Talwrn y Beirdd, llwyfannu dramâu, nosweithiau chwarae chwist a chawl a chân, heb anghofio, wrth gwrs, am wasanaeth Sul y Cofio.

Mae'n fwy na neuadd goffa am ei bod yn gwch gwenyn o weithgaredd, yn enwedig yn ystod misoedd tywyll y gaeaf. Ni fyddai hynny'n bosib oni bai am lafur cariad y gwirfoddolwyr sydd ar Bwyllgor Rheoli'r Neuadd.

Ceir hanes te parti'r canmlwyddiant ar dudalennau 4 a 5.




Rhian Huws o Gwmni Amgen yn dadorchuddio'r gwaith celf a gomisiynwyd ar gyfer dathlu'r canmlwyddiant.

Adweitheg
(Reflexology)
Bethan Ifan – Aberystwyth
07375 422 608



Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Lona Mason
lonaacrobyn@btinternet.com
**07507 652092**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Helena O Sullivan, Bont-goch
**07812 994 008**

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Plygu'r Papur:**
Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins

**Dosbarthwyr:**
Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon; John Evans; Innes Heron

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

CYMRAEG

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)


## GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn yw Delyth a Bleddyn, gyda Iolo'n dylunio. Diolch iddynt.

Golygydd rhifyn Tachwedd fydd Helen Jones (helen.iwan@btinternet.com). Y dyddiad cau yw 1 Tachwedd a bydd y papur ar werth ar 8 Tachwedd.

# Gohebiaeth

### Apêl Coda Ni

Annwyl Olygyddion,
Bydd cyfeillion Coda Ni yn cynnal oedfa yn Seion, Aberystwyth, fore Sul Tachwedd 10. Mae gwaith elusennol Coda Ni yn bellgyrhaeddol – maent yn cefnogi Apêl Gaza Cymorth Cristnogol, yr anghenus yn Burkina Faso ynghyd ag elusennau lleol sy'n cefnogi plant ag anghenion dwys a phobl sy'n dioddef trais yn y cartref.

Y llynedd llwyddwyd i gasglu llond fan o nwyddau iddynt a byddai'n hyfryd gallu eu cefnogi eleni os yw'n bosib.

Os oes gennych ddillad oedolion neu ddillad plant, esgidiau, dillad gwely (ac eithrio *duvets*) tywelion neu gotiau i'w gwaredu tybed a fyddech yn gallu ystyried eu cyfrannu at yr achosion uchod? Gellir eu gadael yn y festri neu gallwch gysylltu â mi os ydych eisiau i rywun eu casglu o'ch cartref.

Gyda diolch,

Rhiannon Davies
Llygad yr Haul, 6 Bryn Eglur, Llanfarian, Aberystwyth,SY23 4BP
(01970) 615409 / cemaes@btinternet.com

### Diweddariad am Gyngerdd Cyhoeddi Gŵyl Cerdd Dant Aberystwyth

Bydd yr Ŵyl Gerdd Dant yn cael ei chynnal yn Aberystwyth yn Nhachwedd 2025 ac mae manylion y cyngerdd cyhoeddi wedi ei ryddhau:

**Dyddiad:** Nos Sadwrn, Tachwedd, 23ain
**Amser:** 7:30 y.h.
**Lleoliad:** Eglwys San Mihangel, Maes Lowri, Aberystwyth, SY23 2AU
**Pris:** £10 (plant cynradd am ddim)
**Artistiaid:** Linda Griffiths; Premier Cantata'r Geni; Deuawd Telyn Gwasanaeth Cerdd Ceredigion; Dawnswyr Seithenyn.









# DYDDIADUR

**HYDREF**

**13** **Bethel** 10 Uno â Seion, Andrew Lenny
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Gŵyl Diolchgarwch
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 5 Gwasanaeth Diolchgarwch

**16** **Bore Coffi** 10.30–12 Neuadd Llanfach

**18** **Gwledd Gymunedol yr Hydref** 7.40–9.30 Cletwr

**20** **Bethel** 2 Cwrdd Diolchgarwch y Plant, Edward Morris Jones
**Rehoboth** 11.15 Edward Morris Jones
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**24** **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** Cinio yn Aberista
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 7 Gweddi Hwyrol

**25** **Sesiwn Nos Wener** 8 Y Llew Gwyn (Delwyn Siôn)

**27** **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**31** **Bingo** 7.30 Wildfowler

**TACHWEDD**

**3** **Bethel** 10 Uno â Seion, Rhidian Griffiths
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**8** **Cwis** 8 Wildfowler

**BOB WYTHNOS**

**Cletwr** Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'

Cofiwch anfon manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y

**Clwb Cant Neuadd Llan-fach**
**Enillwyr mis Medi:**
1. Rhif 106 Ann Mitchel
2. Rhif 107 Ian Mitchel
3. Rhif 24 Jan Novak

**Mae PAPUR PAWB nawr ar werth yn STORFA, MACHYNLLETH**

**GOHIRIO**

Mae'r noson a drefnwyd yng nghwmni Karen Wilson (cyfryngwraig / *medium*) a oedd i fod yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ar Hydref 24 er mwyn codi arian at adnewyddu Llan-fach, Taliesin, wedi ei gohirio.

# Pobl a Phethe



**Priodas**
Llongyfarchiadau i Dewi Jenkins, Tyngraig, Tal-y-bont, ar ei briodas â Sara Lewis o Fachynlleth ar ddydd Sadwrn olaf Medi. Y Parchedig Richard Lewis oedd yn gweinyddu'r gwasanaeth yng Nghapel Maengwyn, Machynlleth, gyda'r wledd i ddilyn ar fferm deuluol Sara yn Henllan, Machynlleth. Roedd yr haul yn gwenu ar y fodrwy y diwrnod hwnnw. Mae'r ddau wedi gwneud eu cartref ar aelwyd Tyngraig, a dymunwn bob hapusrwydd iddynt.

## Cangen Merched y Wawr

Ar nos Fercher 18fed o Fedi croesawyd pawb yn ôl i fwynhau 50fed tymor Cangen Merched y Wawr. Cawsom noson arbennig yng nghwmni Ioan Lord, gŵr ifanc hynod wybodus am y diwydiant plwm yng Ngheredigion. Roedd lluniau a hanesion Ioan am ei brofiadau wrth fentro dan ddaear i lawer o hen weithfeydd gogledd y sir yn agoriad llygad. Nid yn unig i waith anhygoel y mwynwyr cynnar ond i bwysigrwydd yr ardal hon yn darparu mwyn plwm, arian, copr a sinc i'r byd o ddyddiau yr Oes Efydd hyd at rhyw ganrif yn ôl. Mae olion o Oes y Rhufeiniaid yng ngweithfeydd Allt-y-Crib a sefydlwyd pentre o'r enw 'The Welsh Potosi' ar yr Esgair Hir i fyny ym mhen uchaf Cwm Ceulan ar ymyl yr hen ffordd rhwng Ponterwyd a Machynlleth. Roedd yn dda clywed bod llyfr arall gan Ioan ar y ffordd. Bydd yn ychwanegu at y drysorfa o wybodaeth am y diwydiant, oedd mor bwysig i'r ardal hon, sydd ar gael eisoes yn ei dair cyfrol cyntaf.
Mair Nutting a Fal Jenkins oedd yng ngofal y te a thalwyd y diolchiadau gan Aileen Williams. Croeso i chi ymuno â ni am noson o fwynhad bob mis.

*EapG*

**Llwyddiant i griw'r Topie**
Llongyfarchiadau i Oisin Lludd a Helena Pen-y-gro, Sarah Lloyd-Williams, Moelgolomen, a Cath Lloyd-Williams, Neuadd Bryn Glas,a fu'n rhedeg yn hanner marathon Llyn Efyrnwy yn ddiweddar, gyda Oisin, Helena a Sarah yn llwyddo i ennill yr amser personol gorau (*personal best*).




O'r chwith i'r dde – Oisin, Helena, Sarah a Cath.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimwn â Rebecca Haynes ar farwolaeth ei chwaer, Jessica Haynes, ar 7 Medi yn Ysbyty Bron-glais. Bydd gwasanaeth angladd Jessica, a gwasanaeth coffa Siân Haynes a fu farw yn Swydd Durham yn gynharach eleni, yn cael ei gynnal ddydd Gwener, 11 Hydref yn Eglwys San Mihangel, Llandre.

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth John Mason, 'John the Rock' i'w ffrindiau, a oedd yn byw yn Cwm Road, Tal-y-bont. Yn awdur llyfrau, yn fardd ac yn ddaearegwr, roedd yn frwd iawn dros faterion amgylcheddol. Cydymdeimlwn â'i chwaer Fi a'i deulu a'i gyfeillion niferus.

Cydymdeimlwn hefyd â Dick Squires a'i deulu, Ffwrnais, ar farwolaeth ei wraig Fiona (Flo) Evans a fu'n gweithio am flynyddoedd i Gyngor Cefn Gwlad Cymru.

**Brysiwch wella**
Da clywed fod Geraint Evans, Garn-wen, Tal-y-bont, wedi dod adref ar ôl cyfnod yn Ysbyty Bron-glais. Dymunwn lwyr wellhad iddo.

**Genedigaeth**
Llogyfarchiadau i Wil a Sue Hopkins, Dyffryn, Tal-y-bont, am ddod yn fam-gu a thad-cu unwaith eto gan fod Siôn a Gwenan Hopkins wedi cael mab bach, Osian George, brawd bach i Efa.

Hefyd i Mair Rowlands, Erglodd, Tal-y-bont, ar ddod yn fam-gu unwaith eto wedi geni mab bach i Barry a Ffion. Mae'n siŵr fod Lydia wedi gwirioni efo'i brawd bach.

**Croeso**
Croeso cynnes i Robert a Maureen Haines sydd wedi dod i fyw i Anwylfa, Tal-y-bont.

**Llongyfarchiadau**



Da clywed fod Harri Mason, Maes-y-Coed, Ffwrnais wedi ennill ei beret werdd gyda Chomando'r *Royal Marines* yn ddiweddar. Dymunwn yn dda iddo yn ei yrfa yn y dyfodol.

# Te Parti'r

**Daeth hyd at ddau gant o bobl ynghyd i'r te parti ar ddydd Sul, 6 Hydref, i ddathlu canmlwyddiant y neuadd. Roedd y Pwyllgor Rheoli wedi bod wrthi ers deunaw mis yn cynllunio ar gyfer y dathliadau ac wedi trefnu rhaglen o berfformiadau i gynrychioli'r gwahanol fudiadau sy'n defnyddio'r neuadd yn rheolaidd. Cafwyd perfformiad cerddorol gan blant yr ysgol, sgets gan dri o aelodau Pwyllgor y Sioe, dwy gân o'r 1960au gan y ddeuawd Martin a Malcolm, eitem meim gan aelodau'r Clwb Ffermwyr Ifanc, a chân gan gôr y neuadd. Y Cynghorydd Catrin MS Davies, sydd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Rheoli, oedd yn llywyddu.**



Teuluoedd lleol yn mwynhau'r te

### Llyfryn a Rhaglen Ddathlu

Cafodd pob teulu a ddaeth i'r dathliad gopi o lyfryn 44 tudalen a luniwyd gan Gwyn Jenkins, yr hanesydd lleol sydd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Rheoli. Bu Gwyn wrthi'n ymchwilio yn Archifdy Ceredigion ac yn y Llyfrgell Genedlaethol am hanes sefydlu ac adeiladu'r neuadd, a chasglodd nifer o luniau er mwyn adlewyrchu hanes yr agoriad gwreiddiol a dathliadau'r hanner canmlwyddiant yn 1974. Casglodd ynghyd hefyd nifer o eitemau o ddiddordeb a lluniau mwy diweddar ar ffurf arddangosfa fechan a oedd i'w gweld yn ystod y parti.

Yn ei anerchiad cyfeiriodd at y cysylltiadau lleol a oedd yn parhau rhwng rhai o'r sylfaenwyr a'r adeiladwyr gwreiddiol ac unigolion a theuluoedd sy'n dal i fyw yn yr ardal. Jenkin E. Evans, tad-cu Brian Evans, Nant-llain, Tal-y-bont, oedd cadeirydd cyntaf y neuadd, a bu Brian mor garedig â chyflwyno allwedd wreiddiol drws y neuadd adeg yr agoriad swyddogol yn 1924 yn rhodd i'r Pwyllgor Rheoli. Roedd modd gweld yr allwedd yn yr arddangosfa, ynghyd â'r morthwyl a luniwyd gan John Morgan y gof, tad-cu Jane James (née Morgan, yr Efail gynt), sef y morthwyl a ddefnyddiwyd i daro'r cerrig coffa yn eu lle. Cwmni adeiladu Thomas Jones a'i Feibion o Dole a gododd yr adeilad mor fedrus, ac yr oedd un o ddisgynyddion Thomas Jones, sef Mabli Hall o Dole, yn bresennol yn y dathliad.



Yr allwedd



Côr yr Ysgol yn canu 'Teulu mawr ŷm ni i gyd'

Wrth grynhoi arwyddocâd codi'r neuadd, a chrybwyll yr ymdrech a fu i'w chynnal a'i chadw am ganrif gan gymaint â 257 o bobl a wasanaethodd naill ai fel aelodau o'r Pwyllgor Rheoli neu fel Ymddiriedolwyr yn ystod yr holl flynyddoedd, pwysleisiodd Gwyn fod mawr angen i genhedlaeth iau ymddiddori yng ngwaith y pwyllgor er mwy sicrhau y bydd y neuadd yn agored am ddegawdau lawer eto.

Wrth ddiolch yn wresog i bawb a oedd wedi cyfrannu at lwyddiant y dathliadau, adleisiodd Dafydd Jenkins, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli yr un neges. Roedd gennym rywbeth gwerth ei gynnal a'i gadw er lles pawb yn y gymdeithas, meddai, ond gan fod sawl un o aelodau presennol y Pwyllgor wedi rhoi cymaint o'u hamser a'u hegni i gynnal y neuadd mor ofalus am gymaint o flynyddoedd, roedd angen denu gwaed newydd i rannu'r cyfrifoldeb am redeg y neuadd.



Dalmatiaid y Clwb Ffermwyr Ifanc

# Neuadd Goffa

### Dadorchuddio'r gwaith celf

Wrth gyflwyno Rhian Huws o Gwmni Amgen, a wahoddwyd i ddadorchuddio'r gwaith celf a gomisiynwyd o waith yr artist lleol, Pete Monaghan, i ddathlu'r canmlwyddiant, esboniodd Phil Davies, Ysgrifennydd y Pwyllgor Rheoli, fod Cronfa Leri wedi cyfrannu dros £18,000 tuag at wahanol brosiectau yn y neuadd dros y blynyddoedd. Sefydlwyd y Gronfa gan y diweddar Ddr Dafydd Huws a'i weddw Rhian i noddi sefydliadau a mudiadau lleol yn sgil agor Fferm Wynt Mynyddgorddu. Derbyniodd Pwyllgor y Neuadd nawdd o'r gronfa tuag at gynnal dathliadau'r canmlwyddiant y ogystal. Roedd yn addas iawn, felly, mai Rhian Huws oedd y wraig wadd.

### Torri'r gacen



Tri o aelodau hynaf a'r hwyaf eu gwasanaeth i Bwyllgor y Neuadd a gafodd y fraint o dorri'r gacen ben-blwydd a wnaed yn arbennig gan Susan Rowlands, Erglodd. Ieuan Morgan yw gofalwr a Thrysorydd y neuadd a Myfanwy James sy'n gyfrifol am gadw'r neuadd yn lân ac yn daclus. Mae Bob Williams wedi gwasanaethu fel cadeirydd sawl tro yn ystod y degawdau, ac mae bob amser yn hael ei gymwynas wrth wneud pob math o waith trwsio a chynnal a chadw. Y tri hyn yw hoelion wyth y neuadd, ac mae dyled y gymuned yn fawr iddynt am eu hymroddiad.

### Mae hi yma o hyd!

**Cyfansoddwyd cân i'w chanu gan gôr y neuadd yn unswydd gan yr amryddawn David Jones, Bwlchyddwyallt, a oedd yn addasiad cymwys iawn o eiriau anthem Dafydd Iwan, '*Yma o Hyd*', i ddathlu parhad yr adeilad sy'n fwy nag adeilad:**

Rhyfel yn rhwygo'r cyfandir
A'r werin yn myned i'r gad,
Miloedd ar filoedd yn trengi
A'r galar yn drwch draws y wlad.
Gwyddom mor bwysig yw nodi
Y golled a fu yn ein bro,
Rhaid codi neuadd sy'n deilwng
I gadw ein bechgyn mewn co'.

Mae hi yma o hyd,
Mae hi yma o hyd,
Adeilad hardd a chadarn,
Nid oes ei gwell yn unman,
Ymunwch oll i ddatgan
Mae hi yma o hyd.

Heddiw mae'r neuadd yn ffynnu,
Ymgasglwn i ganu ei chlod,
Ond peidiwch, da chi, ag anghofio
Paham mae y neuadd yn bod,
Bu ein cyndeidiau yn weithgar,
Crëwyd adeilad o fri,
Gweddus i gofio ein bechgyn
A'r aberth a wnaed drosom ni.

Mae hi yma o hyd,
Mae hi yma o hyd,
Adeilad hardd a chadarn,
Nid oes ei gwell yn unman,
Ymunwch oll i ddatgan
Mae hi yma o hyd.

## Colofn Elin Jones AS



**Wedi haf digon prysur yn ethol Eluned Morgan AS yn Brif Weinidog newydd ar Lywodraeth Cymru, a mynchu digwyddiadau yng Ngheredigion rydym wedi dechre tymor newydd byrlymus yn y Senedd.**

Yma yng Ngheredigion mae nifer o bynciau y byddwch yn awyddus i gael diweddariad arnynt mae'n siŵr. Gydag arian a staff yn brin ymhobman, rydym yn brwydro i drio cadw cymaint o wasanaethau ag y gallwn yn y sir.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn anffodus wedi penderfynu cau gwelyau i gleifion preswyl yn Ysbyty Tregaron. Mae Ben Lake AS a minnau wedi bod yn erfyn ar y Bwrdd Iechyd i ohirio dod â'r gwasanaeth yma i ben, ac yn gofyn iddynt geisio cadw'r gwasanaeth i fynd o leiaf nes bydd prosiect Canolfan Iechyd Cylch Caron yn weithredol. Yng nghyfarfod y Bwrdd nodwyd gwrthwynebiad y gymuned i'r syniad o gau'r Ysbyty, ond roedd y Bwrdd yn nodi fod rhaid blaenoriaethu diogelwch staff a chleifion. Eu gobaith yw bydd y model cymunedol o ddarparu gofal yn gallu edrych ar ôl hyd at 40 o gleifion. Roedd yn dda clywed bod y gwaith ar brosiect Cylch Caron yn parhau, a bod hyn yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd.

Mae'n sioc anferthol hefyd i glywed y bydd gwelyau paediatrig cleifion mewnol Bronglais yn cau am chwe mis. Mae'n achos a fydd yn achosi pryder mawr i'r gymuned. Tra bydd gofal brys 24 awr a'r rhan fwyaf o driniaethau i blant yn parhau ym Mronglais, bydd rhaid trosglwyddo cleifion sydd angen gofal am fwy o amser na 24 awr i Glangwili. Mae'n debyg fod rhai nyrsus wedi ymgeisio am swydd yn yr wythnosau diwethaf, ac felly gobeithio y bydd gwasanaeth llawn yn gallu ailddechrau o fewn y chwe mis. Byddaf yn gwneud yn siŵr taw dim ond newid dros dro fydd hyn, a bod gwasanaeth paediatrig llawn yn dychwelyd cyn gynted ag y bod modd.

Mae dyfodol Canolfannau Ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian ac Ynys-las yn dipyn o bwnc llosg hefyd. Rwyf wedi bod yn cwrdd gyda swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru, ac yn gwneud cymaint posib i drio sicrhau bod momentwm yn cynyddu ar drafodaethau CNC gyda sefydliadau lleol sydd wedi dangos diddordeb mewn cymryd cyfrifoldeb o'r cyfleusterau. Gobeithio y bydd modd cael datrysiad yn fuan er mwyn sicrhau dyfodol y canolfannau poblogaidd yma, sydd mor bwysig i dwristiaeth Ceredigion.

Mae nifer ohonoch hefyd wedi cysylltu â mi i leisio eich pryderon am ddyfodol pedair ysgol wledig sydd yn y fantol. Mae'n ofnadwy o beth fod cyllidebau mor dynn ar y Cyngor Sir a chyrff cyhoeddus eraill. Bydd cyfnod ymgynghori ar yr ysgolion bach cyn hir, a dwi'n eich annog i gyd i leisio eich barn mewn ymgynghoriad fel y gall pob llais gael ei glywed.




# Ysgol

**Jennifer Jones (Mrs Jones y Gegin)**
Wedi blynyddoedd lawer o waith clodwiw yng nghegin Ysgol Tal-y-bont, mae Mrs Jones wedi penderfynu ymddeol ar ddiwedd mis Hydref. I ddangos ein gwerthfawrogiad o'i gwaith yn yr ysgol, rydym wedi penderfynu cynnal parti bach ar 24 Hydref yn y Neuadd Goffa am 3.30yp.

Bydd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn paratoi te a chacen, felly dewch yn llu i ddweud diolch a hwyl fawr. Croeso cynnes i bawb.

Bydd cyfle i chi gyfrannu tuag at anrheg os dymunwch. Rhowch eich cyfraniad mewn amlen wedi ei selio a'i labelu'n glir a bydd bocs pwrpasol yn Garej Davmor ac yn yr ysgol.

**Llongyfarchiadau**
Braf cael dweud bod pawb wedi setlo'n dda yma ar ôl gwyliau'r haf. Pob hwyl i blant Blwyddyn 6 y llynedd wrth iddyn nhw ddechrau yn yr ysgolion uwchradd a llongyfarchiadau mawr i'r cyn-ddisgyblion ar lwyddo mewn gwahanol arholiadau dros yr haf a symud i golegau ar hyd a lled y byd! Pob hwyl i chi gyd yn y dyfodol.

Llongyfarchiadau mawr i bawb sydd wedi ennill gwobrau mewn sioeau ac eisteddfodau dros y misoedd diwethaf hefyd.

**Ysgol Iach**



Ar ôl cyfnod hir o fod heb gemau hoci rheolaidd, mae'n braf gallu dweud bod cynghrair ysgolion cylch Aberystwyth wedi ailddechrau. Ac mae Ysgol Tal-y-bont wedi cael dechrau gwych i'r tymor drwy fod yn ddiguro yn ein tair gêm gyntaf. Llongyfarchiadau mawr i chi. Diolch yn fawr i'r staff a'r rhieni am gefnogi'r weithgaredd yma sy'n amlwg yn plesio'r plant sy'n chwarae.


**Traws-gwlad**
Roedd hi'n braf mentro i Ysgol Gymraeg Aberystwyth i redeg y cwrs traws-gwlad unwaith eto. Gyda tua 70 o blant yn cystadlu ymhob ras, roedd hi'n hyfryd gweld ymroddiad a dyfalbarhad ein disgyblion wrth iddynt gyrraedd yn ôl gyda'r goreuon. Da iawn chi blant – profiad gwerth chweil.

**Pont yr Wylfa**
Ar ddiwedd mis Medi aeth disgyblion Blwyddyn 6 i flasu bywyd yn Ysgol Penweddig wrth iddynt fod yn rhan o gynllun pontio estynedig. Diolch yn fawr am drefnu gweithgareddau difyr ar ein cyfer. Roedd hi hefyd yn braf cael cwmni disgyblion o Ysgol Craig yr Wylfa yn ystod y dydd.

**Clwb ar ôl Ysgol**
Mae'r Clwb ar ôl Ysgol yn cynnig lle diogel i ofalu am blant tan 5.30 bob nos Fercher a nos Iau. Diolch yn fawr i Miss Eirian a Miss Kate am drefnu'r gweithgareddau amrywiol ar gyfer y plant. Cofiwch archebu lle o flaen llaw – mae'r Clwb yn ofnadwy o boblogaidd.


**Ysgol Ddgidol**





Mae medrau digidol y disgyblion yn ardderchog ac mae Dosbarth Braich Garw wrth eu boddau'n cael gwersi er mwyn dysgu pethau newydd. I ddathlu Wythnos Ryngwladol Codio 2024 cynhaliwyd gweithdy Microbits ac yn ôl y fideo sydd ar ein gwefan X (*Twitter*) fe gafodd y disgyblion amser gwych yn arbrofi. Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio pellach rhwng yr ysgol a swyddogion y sir yn ystod y flwyddyn nesaf yn y maes yma.

**Her ddarllen y Llyfrgell**
Llongyfarchiadau mawr i'r gŵr bonheddig yma am fynychu Llyfrgell Machynlleth a darllen yn ddiwyd dros wyliau'r haf. Y thema eleni oedd 'Crefftwyr Campus' a'r her eleni eto oedd darllen o leiaf chwe llyfr. Da iawn ti am ennill tystysgrif a medal a phob hwyl gyda'r darllen i'r dyfodol.



Darllenwr brwd


**Iwan Jones**

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

# Tal-y-bont

**Gwersi Offerynnol**



Rydym wedi bod yn ffodus iawn o gael Miss Helen i ddod yn ôl i'r ysgol eleni eto i gyflwyno gwersi offerynnol i Ddosbarth Allt y Grib. Mae'r plant wedi bod wrth eu boddau'n cadw rhythmau gwahanol a chwythu'r offeryn pBuzz i ganeuon adnabyddus.


Ysgol Bro Hyddgen
Gwireddu
Breuddwydion

Ysgol Bro Hyddgen
Empowering
Dreams

**Noson Agored y Chweched Dosbarth**

**Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth**

**21/10/24 5.30-7.30 yh**

*Ansicr am eich cam nesaf ar ôl TGAU? Dewch i astudio mewn ysgol gefnogol a chyfeillgar gydag uchelgeisiau mawr, canlyniadau ardderchog a dosbarthiadau bach.*

**01654 704200 / swyddfa@brohyddgen.powys.sch.uk**


# Ysgol Tal-y-bont 1960



**Dyma lun a anfonwyd at y papur gan un o feibion pentref Tal-y-bont, Glyn Harbour. Mae gennym lawer o'r enwau ond byddai'n braf derbyn enwau pawb. Byddwn yn eu cynnwys yn y rhifyn nesaf. A wnewch i anfon rhestr o'r enwau at olygydd y rhifyn nesaf, Helen Jones, os gwelwch yn dda** (*helen.iwan@btinternet.com*)? Diolch.

Bydd rhai ohonoch yn cofio Glyn. Cefais y fraint o eistedd nesaf ato yn nosbarth 2AW yn Ysgol Ramadeg Ardwyn flynyddoedd maith yn ôl – bachgen mwyn a chymwynasgar. Wedi derbyn y llun, holais Glyn am rai o'i atgofion am ei gyfnod yn Ysgol Tal-y-bont – yr hen ysgol – dros drigain mlynedd yn ôl. A dyma ei ymateb.

*GJ* (golygydd cyffredinol)

'Fel mae bywyd yn mynd yn gylch yn amal! Yn drist, mae ambell un (gormod) yn y llun wedi marw erbyn hyn. Dw i newydd ailgysylltu â dau sydd yn y llun yma. Symudais yn ôl o wlad Groeg yn ddiweddar i ardal Caerfyrddin a chwrddais â Tony Jones ac Alun Davies sy'n byw yn yr un ardal – byd bach fel mae nhw'n ddweud. Atgofion da am yr amser 'na. Yr hen ysgol wrth gwrs. Pethau bach sy'n dod yn ôl i'm meddwl ond mae'r manylion wedi mynd yn llwch! Pethau fel Miss Jones yn cynhesu'r llaeth pan oedd e wedi rhewi, nid dim ond toddi'r iâ, ond gwneud y llaeth yn gynnes ... ychafi, gwell oedd cael e gydag ychydig o rew ynddo fe! Llaeth o'r pentre wrth gwrs, yn ffresh bob dydd mewn poteli bach (1/3 peint). Ar fore oer, edrych dros y wal neu drwy'r gât amser chwarae i weld faint o 'sgid' oedd wedi ei wneud gan y tractor pan ddoth e â'r llaeth. Roedd llawer o'r hogiau gyda sgidiau â hoelion – yn gallu gwneud gwreichion wrth lithro ar y tarmac amser chwarae. Doedd gen i ddim hoelion, er gofyn i fy rhieni, ges i ddim hoelion o dan fy sgidie!

Ymarfer ysgrifennu ar ddarn o lechen, glanhau nhw wedyn gyda brethyn llaith cyn ysgrifennu eto – roedd ailddefnyddio yn y dyddiau 'na yn well nag ailgylchu heddiw, dim twr o bapur dyddiau 'na. Oriau o ymarfer ysgrifennu arddull 'italeg', inc a nib arbennig – fydde Ithel ddim yn hapus i weld fy llawysgrifen y dyddiau yma! Cofio Ithel yn dod â pheiriant newydd un dydd – recordydd tâp. Mor ddoniol oedd clywed ein lleisiau yn dod yn ôl atom.

Amser cinio cael bwyd syml, blasus a llond bol ohono cyn mynd i chwarae yng nghae'r ysgol ychydig lan y ffordd. Cloch llaw a ddefnyddiwyd i alw ni i mewn ar ddiwedd amser chwarae. Doedd dim gwisg unffurf ond trowsys byr, haf a gaeaf. Agorwyd y parwydydd rhwng y dosbarthiadau i greu un stafell fawr ar gyfer cyngerdd Nadolig. Papur caled oedd yn y tŷ bach (tu allan wrth gwrs – go oer yn y gaeaf) ag arogl antiseptic ar y papur – IZAL!

Er gwaetha popeth, atgofion cynnes sydd gennyf am yr amseroedd yna.'

*Glyn Harbour*

# Yn NATURiol

**Plannu coed, gofal coed a chacen yn nalgylch Tal-y-bont gyda 'Coed Tal-y-bont'**

Grŵp o wirfoddolwyr yw 'Coed Tal-y-bont' sydd wedi helpu i blannu mwy na 25,000 o goed ar ffermydd lleol. Y bwriad yw bwrw ati am bum mynedd nes bydd 80,000 yn y tir.

Yn ogystal â phlannu, yn ddelfrydol rhwng Rhagfyr a Mawrth, rydyn ni'n gofalu am y coed tan maen nhw'n ddigon cryf i dyfu'n uwch ac yn gryfach na'r glaswellt a'r rhedyn sydd o'u cwmpas.

Rydyn ni'n arbrofi gyda'r adeg orau i blannu; os oes ton o wres yn y gwanwyn gall coed newydd elwa o gysgod y rhedyn ond pan fydd hwnnw wedi marw yn yr hydref gall fygu'r coed bach.

Plennir y coed gyda chaniatâd y tirfeddiannwr yn aml pan fo cynllun adfywio arferion ffermio yn digwydd. Gan amlaf plennir y coed fel clawdd neu wrych, neu ambell dro fel rhes gysgodol sy'n caniatáu gwahanol gynlluniau pori. Fel cangen o'r Grŵp Llifogydd lleol rydyn ni'n gobeithio y bydd y sietinau newydd yma yn cyfrannu tuag at arafu llif dŵr o'r tir i'r nentydd a'r afon ac yn lleihau'r posibilrwydd o lifogydd. Ond, hyd yn oed os nad yw hynny yn digwydd, mae sietin, gwrych neu glawdd yn ffordd wych o gefnogi bioamrywiaeth.

Ein gwirfoddolwyr cyson yw Rosi a Di o Dal-y-bont, Claire, Addi a Mary o'r Borth a Naomi o Bontarfynach. Meddai Di, 'Diolch am drefnu hwn Linda ar y fath fore hyfryd, braf darganfod ac achub glasbrennau mewn trafferth. Edrych ymlaen at y sesiynau sathru rhedyn!'

Hoffem eich gweld chi'n ymuno â'r criw rhadlon sy fel arfer yn cwrdd ar fore Llun neu Sadwrn, ac mae gennym bob tro ddigon o gacs a siocled poeth i'w rhannu!

Cysylltwch â Linda, 01970 832781, lindalime@myphone.coop neu 07507 464077.

**Cynllun Cynnal Llif**

Ffocws y cynllun yw pedwar cyfarfod o gyd-ddylunio i edrych yn fanwl ar system afonydd Leri a Cheulan uwchben Tal-y-bont, a'r bwriad yw creu cynllun i Reoli Llifogydd Naturiol fydd o les i bobl a bioamrywiaeth lan ac i lawr yr afonydd. Daeth y llifogwyr, ffermwyr, un o ysgol Tal-y-bont a chynrychiolwyr o Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr, Cyfoeth Naturiol Cymru, a Dŵr Cymru i'r cyfarfod cyntaf ym mis Awst. Bydd yr ail gyfarfod ar ddydd Gwener, 25 Hydref. Noddir y prosiect gan 'The Esmee Fairbairn Foundation'. Tir Canol sy'n gyfrifol amdano gyda chydweithrediad Grŵp Llifogydd Cymuned Tal-y-bont.

**Peidiwch â bwydo draenog gyda bwyd ci, llaeth, caws, bara na ffrwythau**

Mae bwyd cath sych a bwyd arbennig i ddraenog o siop yn iawn. Cymerwch ofal o'r talp o ddail welwch chi, gall fod rhywbeth y tu mewn! Bydd twll mewn ffens yn ffordd i'r draenog grwydro ymhell, mae'n hoffi hynny. Rhowch lond powlen o ddŵr oer allan a chofiwch lanhau'r powlenni'n ddyddiol.

**Llysiau Enfys a Llain Gymunedol**

Beth am roi eich dwylo yn y pridd?

Prosiect cymunedol i dyfu llysiau yw Llain Llysiau Enfys sydd ryw filltir o Dal-y-bont ar Fferm Llety Llwyd. Y bwriad yw rhoi cyfle i bobl brofi tyfu bwyd. Ruth Enfys a grëodd y gerddi gyda chymorth sawl gwirfoddolwr. Mae Ruth yn croesawu cymorth ar ail a phedwerydd Gwener y mis. Cewch gyfle i droi eich llaw at dasgau gwahanol fel paratoi gwelyau, hau, trawsblannu llysiau a chynaeafu. Pan ddaw'r cynhaeaf cewch fynd â pheth adre gyda chi.

O'r llain gwelir ceffylau yn pori, a'r wythnos o'r blaen gwelwyd haid o nicos yn hedfan heibio.

Cysylltwch â Ruth am fanylion – 07817 334178



Ruth Enfys gyda hambwrdd o bwmpenni yn barod at yr Ŵyl Ddiolchgarwch Gymunedol yng ngerddi Heol y Gogledd ar ddiwedd Medi.

**Os oes gennych newyddion i'w gynnwys yng ngholofn fisol *Yn NATURiol* cysylltwch â Linda ar *lindalime@myphone.coop*.**

# Clwb Hen Beiriannau Tal-y-bont a'r Cylch

Dyma fwrw golwg ar ddigwyddiadau'r Clwb dros y misoedd diwethaf. Yn ôl yn y gwanwyn daeth Richard Webster atom i rannu rhai o'i atgofion pan oedd oedd yn gweithio i gwmni tractorau Massey Ferguson. Roedd y cwmni wedi'i leoli yn Banner Lane, Coventry. Bu'r lle yn gyrchfani sawl diwrnod allan i wahanol fudiadau megis Clybiau Ffermwyr Ifanc – pwy sy'n cofio mynd? Nid oedd Richard yn honni fod ganddo lawer o wybodaeth fecanyddol; roedd ef yn gweithio yn yr adran weinyddol. Nid oedd wedi mwynhau'r iechyd gorau yn ddiweddar ac roedd yn gryn ymdrech ar ei ran i gynnal y noswaith. Diolch iddo.

Ar gyfer cyfarfod mis Mehefin cawsom ymweliad â chwmni Stencraft, Capel Dewi. Dyma gwmni bach teuluol sy'n ymdrin â gwaith lledr. Gwnânt bob math o bethau lledr – traddodiadol a modern. Er gwaethaf pob dyfais fodern mae cydweithrediad rhwng llygad a llaw yn dal yn hollbwysig, fel y cawsom weld! Mae'n rhyfedd beth sy'n mynd ymlaen bron ar garreg ein drws. Diolch i Mitchell a Sten am ein croesawu.

Daethom at ein gilydd fis Gorffennaf ar safle Rheilffordd Cwm Rheidol, sef trenau Pontarfynach yn Aberystwyth. Cawsom olwg manwl ar y lle, mwy nag sy'n agored i'r cyhoedd rwy'n siŵr. Yn ogystal â chynnal a chadw eu hoffer eu hunain, maent yn ymgymryd â gwaith o sawl lle tros Brydain gyfan. Gwelsom bob agwedd o'r gwaith, o'r cynllunio, y gwaith metel trwm hyd at y peintio gorffenedig, a'r cyfan i'r safon uchaf. Agoriad llygad yn wir! Diolch i Llŷr ap Iolo am drefnu'r ymweliad ac iddo ef a Ioan Lord am ein tywys o gwmpas.

Bu sawl aelod o'r Clwb yn cynorthwyo ac arddangos mewn sioeau yn ystod yr haf, gan gynnwys Sioe fawr Llanelwedd. Bu'r adran hen beiriannau yn Sioe Aberystwyth yn llwyddiant mawr. Hefyd Sioe Llanilar. Yna Sioe Tal-y-bont (rhaid cadw'r gorau tan yn olaf!).Bu'n ddiwrnod llwyddiannus a chafwyd gorymdaith o'r hen dractorau o gwmpas y cylch ceffylau.

*John Evans*

## Gŵyl R. S. Thomas

**Cynhaliwyd gŵyl lwyddiannus i ddathlu cysylltiad R. S. Thomas a fu'n ficer yn Eglwys-fach rhwng1954–67.**

Roedd criw da ar y daith gerdded o gwmpas y Domen Las ar safle Gwarchodfa Adar Ynys-hir a chafwyd cynulliad teilwng yn y gwasanaeth a gynhaliwyd gan y Canon Andrew Loat ym mhresenoldeb Esgob Tyddewi, Dorrien Davies. Bu'r gweithdy barddoniaeth yn dra phoblogaidd hefyd. Bydd yr arian a gasglwyd yn cael ei rannu rhwng Eglwys Sant Mihangel ac Uned y Galon yn Ysbyty Bronglais.



Y Parch Dorrien Davies, Esgob Tyddewi ar y dde a'r Canon Andrew Loat ar y chwith.

## Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

**Croesawyd yr aelodau i gyfarfod cyntaf y tymor newydd yn festri capel Rehoboth ar brynhawn Mawrth, 10 Medi, gan Meinir Fleming. Jane Blank oedd y wraig wadd am y prynhawn. Ganwyd a magwyd Jane yn Sheffield, ond mae teulu ei mam yn hanu o Eglwysfach. Mae wedi byw yng Nghymru ers rhai blynyddoedd bellach, ac yn awr mae hi a'i gŵr yn byw yn Llanrhystud a'r ddau wedi dysgu Cymraeg. Mae Jane yn awdur, ac wedi defnyddio straeon lleol yn ei nofelau, sef *The Shadow of Nanteos* a *Nanteos: The Dipping Pool*.**



Jane Blank y nofelydd

Yn ystod ei sgwrs bu'n sôn fel y dechreuodd ei diddordeb yn hanes Plas Nanteos pan aeth yno'n blentyn gyda'i mam a'i mam-gu a chlywed hanesion am y lle. Hefyd hoffai wrando ar ei theulu yn adrodd storïau a oedd yn cael eu trosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf, a sylweddolai fod y storïau hynny yn drysorau i'w cadw a'u cofnodi. Cyn ysgrifennu ei nofel gyntaf am Nanteos gwyddai fod yna nofelau yn ymwneud â hanesion lleol yng ngogledd a de Cymru ond nad oedd yna rhyw lawer am Geredigion a'r canolbarth, a dyna a'i hysgogodd i greu nofel oedd yn cyflwyno hanes pobl y Plas fel ei llyfr cyntaf gan wau rhai o'r hanesion a glywodd gan ei theulu i mewn i'r stori. Ar ddiwedd y nofel honno gadawyd y darllenydd gyda sawl cwestiwn penagored ynglŷn â rhai o'r cymeriadau, felly ymhen amser penderfynodd fynd ati i greu yr ail nofel a fyddai'n ateb rhai o'r cwestiynau hynny. Diolchwyd yn gynnes i Jane am brynhawn difyr iawn, ac yna mwynhawyd paned o de a bisgedi a baratowyd gan Carys Briddon.





Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN



Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292

*Rhian*
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
*ffôn* 832 612
07835 525 553





**Mae dros 11 mlynedd wedi mynd heibio ers i Siop Cletwr ('Siop Cynfelyn') ailagor ar ei newydd wedd. Anodd credu. Mae llawer wedi newid yn ystod y cyfnod – adeilad newydd, pobl newydd, wrth gwrs, ond mae'r byd wedi newid hefyd. Y Cofid Mawr, llymder, rhyfeloedd tramor yn creu sgileffeithiau hyd yn oed yma yng Nghymru fach, a llawer mwy. Y bwriad ers y cychwyn oedd creu rhywbeth i'r gymuned. Rhywbeth sy'n berchen i'r gymuned ac sy'n gwasanaethu i greu cymuned well, yn ôl anghenion a blaenoriaethau pobl ein cymuned. Cred y Bwrdd mai dyma'r amser i ni oll fel cymuned ailedrych ar ein cynlluniau. Ydy ein hegwyddorion a'n cynlluniau gwreiddiol yn dal yn berthnasol? Beth ddylai Cletwr fod dros y pump i ddeng mlynedd nesaf?**



Gwasgu sudd afalau yng Nghletwr

Rydym yn cychwyn ar gyfnod o drafodaeth. Mae'r Bwrdd eisiau gwybod barn ein cymuned. Beth ydych chi am ei weld yn Cletwr? Beth ydych chi eisiau i Cletwr ei wneud? Beth ydych chi eisiau i Cletwr beidio â gwneud? Mae hyn yn cynnwys pob agwedd o waith Cletwr – y siop, caffi, digwyddiadau, gwasanaethau. Beth ydych chi'n feddwl?

Er mwyn cael yr ystod ehangaf o syniadau, bydd sawl cyfle i chi fynegi barn. Yn gyntaf, fe fydd cyfarfod yn Cletwr ar ddydd Sadwrn 19eg Hydref am 4.30. Mae ar agor i aelodau Cletwr, ffrindiau, cefnogwyr a chwsmeriaid. Rydym wrthi'n paratoi arolwg ar-lein (*SurveyMonkey*) a fydd (gobeithio) yn fyw erbyn dyddiad cyhoeddi *Papur Pawb*. Maer cfeiriad ar ein gwefan, Facebook ayyb. Bydd copïau ar bapur ar gael yn y siop. Ac wrth gwrs mae croeso ichi anfon e-bost (neu lythyr!) atom (Wrth gwrs mae croeso ichi siarad â ni hefyd, unrhyw bryd, ond rydyn ni'n fwy tebyg i gofio'ch syniadau os oes copi ar bapur gennym!).

Felly dewch yn llu i'r cyfarfod. Cofiwch, 19eg o Hydref, 4.30yp.

Mae'r siop a'r caffi'n parhau yn dra phrysur, hyd yn oed yn yr Hydref. Cawsom ddiwrnod bendigedig ddydd Sul y 29ain – Diwrnod Afalau. Diolch i'r rhai a'i trefnodd ac i bawb a ddaeth i wasgu sudd afalau ffres, blasus.

Mae sawl digwyddiad eraill wedi ei drefnu. Ai crefftwr/wraig ydych? Cynhelir Ffair Grefft Nadolig Cletwr ar 6ed o Ragfyr, ond os ydych am werthu eich crefftau yno, rhaid bwcio stondinau erbyn 4ydd o Dachwedd. Ffoniwch y siop.

Gwledd Gymunedol yr Hydref. Dyma arbrawf newydd. Nos Wener, 18fed o Hydref, bydd Gwledd dymhorol yn Cletwr. Wedi ei goginio a gweini i gyd gan Fwrdd Cletwr, bydd tsili (cig eidion, llysieuol neu fegan) a chrymbl ffrwythau a chwstard ar gael. A chyfle gwych i gwrdd â'ch ffrindiau a chymdogion: £15 i oedolion, £8 plant. Bydd diodydd ar gael i'w prynu. Ond RHAID BWCIO erbyn dydd Llun 14eg, drwy ffonio neu yn y siop.

Cynhelir CCB Cletwr am 15.45yp ar 1af o Ragfyr.

Rydym yn bwriadu trefnu noson ffilm rywbryd yng nghanol mis Tachwedd hefyd. Manylion i ddilyn.

Dyna i gyd am y tro. Er bod rhaid i mi wneud f'apêl fisol. Cofiwch ddefnyddio'ch siopau a busnesau lleol, neu fe fydd dyfodol monopoli Tesco o'n blaen ni! Ac wrth gwrs, rydym bob amser yn hapus i weld gwirfoddolwyr newydd yn Cletwr. Oes 'na unrhyw un sy'n joio defnyddio *Quickbooks*? Efallai?

*Nigel Callaghan*

# Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

**Y Fynwent**
Mae'n siŵr bod nifer ohonoch wedi sylwi ar y newidiadau sydd wedi digwydd ym Mynwent Tal-y-bont dros yr haf. Rydym yn ddiolchgar i JHJ Fencing am osod y ddau ganllaw metel, gan obeithio y bydd y rhain yn ei gwneud yn haws i bobl gyrraedd gwaelodion y fynwent yn ddiogel. Mae mainc wedi cael ei gosod yn y rhan newydd, ac mae contractwyr wrthi'n roi wyneb newydd ar y ffordd i lawr o'r gât ddwbl. Pan fydd y gwaith ar y llwybr cyhoeddus wedi'i gwblhau, bydd ffens newydd yn cael ei gosod ar hyd y ffin â'r ffordd fawr hefyd.

**Dŵr yn llifo**
Bu tipyn o drafod ynghylch problem y dŵr sy'n llifo i lawr o Allt-y-Crib trwy'r pentre, ac rydym ar ddeall bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru gynlluniau yn yr arfaeth i osod rhwystrau i geisio addasu llwybr y dŵr trwy'r goedwig er mwyn arafu'r llif. Awgrymwyd hefyd y gellid plannu coed helyg yng nghornel y cae pêl-droed i amsugno tipyn o'r dŵr tir. Byddai hefyd yn bosibl codi adeileddau helyg yng nghae chwarae Bont-goch i amsugno'r dŵr sy'n achosi problemau yno yn ogystal.

**Cytundeb torri gwair**
Yng nghyfarfod mis Medi, nododd y Cyngor fod y contract torri glaswellt presennol yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth 2025, felly bydd manylion y contract newydd yn cael eu cyhoeddi'n fuan a bydd croeso i unrhyw un dendro am y gwaith.

**Goryrru**
Mae cyflymder rhai o'r cerbydau sy'n teithio trwy Bont-goch yn dal i beri pryder i'r trigolion, felly byddwn yn ceisio dwyn perswâd ar y Cyngor Sir i newid y terfyn i gyflymder mwy synhwyrol.

**Ymgyrch Cae Bach**
Mae ymgyrch Cae Bach yn symud yn ei blaen yn dda gyda dros £18 mil wedi'i gasglu hyd yma. Y cam nesaf fydd sicrhau system ddraenio briodol i wneud yn siŵr na fydd llyn yn cronni yn y canol fel sy'n digwydd ar hyn o bryd pan fydd y tywydd yn wlyb. Noson 'Sigla dy Gwt' fydd y digwyddiad codi arian nesaf, a hynny ddechrau mis Tachwedd – cadwch olwg am fwy o fanylion, a byddwch yn barod i ddawnsio!
Ddiwedd mis Awst yn Sioe Tal-y-bont, aed ati i lansio Clwb 200 Cae Bach a bu'r tocynnau ar werth tan ddiwedd mis Medi. Bydd yr enillwyr yn cael eu dewis yng nghyfarfodydd misol y Cyngor.
Longyfarchiadau i enillwyr mis Medi:

1af – £50: 81, Rhiannon Evans
2il – £20: 74, Ruth Jên
3ydd – £10: 69, Eiry a Hefin Davies






# Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed

**Yr A487**
Derbyniodd y Cyngor ddiweddariad gan Is-adran Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, Llywodraeth Cymru 08/08/2024, mewn ymateb i e-bost a anfonwyd 30/01/2024.
Dyma'r pwyntiau perthnasol:
• Mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r astudiaeth dichonoldeb ar gyfer y tair adran a nodwyd yn ystod yr asesiad gwreiddiol.
• Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y "*costau yn sylweddol uwch na'r disgwyl*" ar gyfer yr darnau arfaethedig.
• Mae Llywodraeth Cymru "*bellach yn y broses o gwblhau adroddiad ... Canllaw Arfarnu Trafnidiaeth Cymru.*"
• "*Yn dilyn rhyddhau'r canllawiau Gosod Terfynau Cyflymder Lleol newydd yng Nghymru, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r terfynau cyflymder ar draws ein Rhwydwaith Cefnffyrdd. Tan hynny, nid ydym yn gwneud unrhyw newidiadau i derfynau cyflymder unigol fel ein bod yn gallu sicrhau cysondeb â'r canllawiau newydd.*"

Mae'r Cyngor wedi ateb gan amlygu siom y gymuned na fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried gostyngiad cyflymder i 30 mya drwy Ffwrnais ac Eglwys-fach. Mae trafodaethau'n parhau ynghylch creu palmentydd. Mae'r Cyngor hefyd wedi tynnu sylw at leoliad yr arosfan bws i'r de o Ffwrnias a nodi ei fod mewn ardal 60 mya. a bod hynny yn annerbyniol.

(16/09/2024) - Trafododd Pwyllgor Deisebau Llywodraeth Cymru y ddeiseb 30mya a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Stevenson:
• Mae'r pwyllgor deisebau yn dal heb gael ymateb gan Ken Skates AS.
• Cytunodd y pwyllgor deisebau i gadw deiseb y Cynghorydd Stevenson yn agored hyd nes y ceir ymateb gan Ken Skates AS.
Nododd y Cyngor ohebiaeth barhaus rhwng y Cynghorydd Swanson a Ken Skates AS, y Cynghorydd Davies a Ken Skates AS, Elin Jones AS a Ken Skates AS, a chefnogaeth barhaus Ben Lake AS.

**Sedd ar Y Foel Fawr**
Nododd y Cyngor fod y sedd ar ben y Foel wedi ei thynnu gan y bobl a'i gosododd yno yn y lle cyntaf.

**Wifi yn Yr Ystafell Haearn**
Derbyniodd y Cyngor ohebiaeth gadarnhaol gan Ymddiriedolwyr Yr Ystafell Haearn ynglŷn â gosod Wifi.

**Diffibriliwr Eglwys-Fach**
Penderfynodd y Cyngor edrych ar y posibilrwydd o ailosod cysylltiad trydan yn y blwch ffôn yn Eglwys-fach.

**Ysgol Craig yr Wylfa**
Nododd y Cyngor bod ymgynghoriad i'r posiblrwydd o gau Ysgol Gynradd Craig yr Wylfa, Borth wedi ei gytuno gan gabinet Cyngor Sir Ceredigion ddydd Mawrth 03/09/2024. Nodwyd hyn oherwydd bod rhai o ddisgyblion yr ysgol yn byw yn ardal Ysgubor y Coed.

**Nodyn**
Mae Cyngor Ysgubor-y-Coed yn awyddus i glywed gan aelodau'r gymuned sydd ag awgrymiadau ar gyfer prosiectau yr hoffech chi weld y Cyngor yn eu cefnogi, ee. cymorth digidol, ac ati. Os oes gennych awgrym, cysylltwch â Teresa (Clerc) drwy e-bost ar clerk@ysguborycoedcommunitycouncil.co.uk neu drwy ffonio 07974488564.

## Y Parchedig T. J. Irfon Evans (1926–2024)

**Yn dilyn cystudd hir a ddioddefodd yn ddewr a di-gŵyn bu farw'r Parchedig Irfon Evans, cyn-weinidog Bethel Tal-y-bont, ar 5 Awst 2024.**



Bu'n weinidog yr efengyl ers 1952. Treuliodd ugain mlynedd olaf ei weinidogaeth yn weinidog eglwysi Soar, Llanbadarn Fawr a Noddfa Bow Street cyn ychwanegu eglwysi Bethel, Tal-y-bont, Morfa, Borth a Salem Coedgruffydd at ei ofalaeth ym 1987. Ymddeolodd yn 1993.

Ganed ef yn Nryslwyn yn Nyffryn Tywi. Roedd yn un o ddeuddeg o blant Martin a Catherine Evans. Glöwr oedd ei dad a phan oedd Irfon yn bedair ar ddeg mlwydd oed lladdwyd ei dad mewn cwymp o dan ddaear. O ganlyniad, am mai ef oedd y mab hynaf, bu'n rhaid iddo roi'r gorau i'w addysg er mwyn ennill cyflog i gynnal y teulu. Roedd yn wrthwynebydd cydwybodol yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Wedi derbyn hyfforddiant yn y Coleg Coffa yn Aberhonddu derbyniodd alwad gan eglwysi Capel Isaac, Penyrheol a Saron, Llanarthne a'i ordeinio yn weinidog yn haf 1952. Yn hwyrach y flwyddyn honno priododd Mair oedd yn enedigol o Lansadwrn ond wedi ei magu yn Aberystwyth. Cydnabu ei ddyled fawr i Mair, ei briod hawddgar a hwylusodd y ffordd iddo gyflawni ei waith fel gweinidog mor effeithiol. Ergyd drom iddo chwe blynedd ar hugain yn ôl oedd marwolaeth Mair yn dilyn brwydr ddewr yn erbyn afiechyd digon garw.

Ergyd drom arall i Irfon oedd marwolaeth ei fab Huw ar drothwy Nadolig 2021. Roedd Irfon a Huw yn rhannu'r un aelwyd a mawr oedd gofal Huw am ei dad.

Roedd yna barch mawr i Irfon yn yr holl eglwysi y bu'n gweinidogaethu ynddynt. Rhoes ei hunan yn gyfan i'r weinidogaeth heb arbed dim arno'i hunan. Bydd llawer yn ei gofio fel person caredig, annwyl, llawn hiwmor a fyddai bob amser yn holi hynt a helynt pobl Bethel pan oedd yn gweld un ohonom yn y dref neu yn Seion Stryd y Popty, lle roedd yn aelod. Yn ystod ei gyfnod yn weinidog Bethel fe dderbyniodd nifer o bobl ifanc yn gyflawn aelodau gan dreulio amser yng nghwmni pob un, gan ennill eu parch.

Roedd ei angladd, yn ôl ei ddymuniad, yn hollol breifat ac yng ngofal ei feibion, Y Parchedig Deian Evans a Mr Wyn Evans.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â'i feibion Wyn a Deian, ei ferched yng nghyfraith Linda ac Annette, ei wyrion Gareth ac Iwan a'i briod Kelly, ei chwiorydd Eirwen a Berith a'i frawd Edryd, ynghyd â'r cysylltiadau teuluol i gyd.

Diolch i'r Parchedig Andrew Lenny am yr wybodaeth ffeithiol a gynhwysir yma.

*Phil Davies*

# Ruth Jên yn dathlu'r 60



Rhai o'r eitemau sydd i'w gweled yn arddangosfa Ruth Jên.

**Mae Ruth Jên, Yr Hen Siop Sgidie, yn aml i'w gweld yn teithio o le i le ar fws gan nad yw'n meddu ar drwydded yrru ac erbyn hyn mae hi wrth ei bodd yn cael defnyddio'r 'bus pass' hirddisgwyliedig!**

Yn ogystal â theithio ledled Cymru ar fws bydd Ruth yn dathlu'r 60 eleni gydag arddangosfa ôl-syllol o'i gwaith print o ddyddiau coleg Celf Caerdydd hyd heddiw. Cynhelir yr arddangosfa ddifyr hon tan Tachwedd 9fed yng nghanolfan MOMA, Machynlleth. Os hoffech ymweld â'r arddangosfa amrywiol yma, gwiriwch oriau agor yr oriel ar wefan MOMA. Wrth gwrs, mae modd cyrraedd Machynlleth ar fws, felly cadwch lygad barcud mas am yr artist ei hun!




# Sesiwn Nos Wener

**Nos Wener, 27 Medi, cynhaliwyd noson o *jazz* sipsi Cymraeg gan y grŵp 'Tacla' yn y Llew Gwyn, Tal-y-bont.**

Nid yn aml y byddwn ni'n cael cyfle i groesawu band *jazz* Cymraeg i'r pentre, ond dyna yw 'Tacla': band sy'n chwarae *jazz* sipsi a cherddoriaeth y 1930au yn arddull Django Reindhart gyda gitars, bas dwbl, trwmped a chlarinét. Cafwyd noson wych iawn o ran y gerddoriaeth a'r hwyl.

Cadwch olwg am fanylion ein nosweithiau dros y gaeaf a dewch draw i gefnogi adloniant cerddorol Cymraeg. Delwyn Siôn fydd yn perfformio nesaf ar nos Wener, 25 Hydref, yn y Llew Gwyn am 8.00. Croeso mawr i bawb. [Gweler hefyd eiriau Robat Gruffudd yn 'Y Gair Olaf' tudalen 12]




Aelodau'r band 'Tacla' yn diddanu yn y Llew Gwyn.

# Chwaraeon a Hamdden

## Dartiau



Mae tîm dartiau merched y Wild Fowler wedi derbyn crysau newydd gan dafarnwyr y Fowler, Chris Walton a Dave Gilbert. Dyma'r tîm: cefn: Rhian Jones, Wendy Jones, Nia Jones; blaen: Chris, Anwen Curran, Angela Jones, Cath Howard (yn absennol roedd Teresa Jones a Lucy Lloyd).

Cafodd y tîm lwyddiant yn ystod y tymor diwethaf gan ddod yn drydydd yn y cynghrair lleol, ennill y Jubilee 4s, a dod yn ail yn y 5 bob ochr a'r 6 bob ochr.


**Grant Mayhew Ltd**

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk



NICEIC APPROVED CONTRACTOR

**Alun Davies**
Contractiwr Trydanol

**M** 07703 169813

Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
**E** alun.davies142@btinternet.com


## Rhwyfo yn Llundain



Y cwch ar yr afon Tafwys

Ym mis Medi bu Jenny a Mick Fothergill, Minafon, Tal-y-bont yn rhwyfo yn y Great River Race ar hyd yr afon Tafwys yn Llundain. Roeddent mewn cwch hir Celtaidd o'r enw 'Ceridwen' – yn aelodau o dîm o chwech a oedd yn cynrychioli Clwb Rhwyfo Aberystwyth.

Daeth y tîm yn 69ain allan o 270 cwch ac yn bedwerydd yn categori Celtaidd cymysg. Tipyn y gamp i dîm o rwyfwyr dros 60 oed.

Mae Jenny a Mick wedi bod yn cystadlu yn y ras am dros 25ain mlynedd ac yn mwynhau teithio ar hyd yr afon yng nghwmni cychod lliwgar o bob rhan o Brydain ac Ewrop.




Jenny a Mick gyda'r tim

## Y Gair Olaf



Nos Wener olaf mis Medi, blastiodd *Jazz* Cymraeg allan o ffenest agored Y Llew Gwyn dros y Patshyn Glas gan foddi gwaelod y pentre gyda'i synau hapus: nodau pur y trwmped, cynhesrwydd y tenor *sax*, pwnio'r bas dwbwl a rhythmau prysur y ddau gitarydd. Roedd Richard Gwallt yn gweithio'i ffordd adre ar y pryd, a chododd ei law atom, a gwenu led y pen. Pa ryfedd? Roedd y miwsig yn heintus a'r cerddorion yn wych ond nid yng Nghaerdydd roedden ni nac yn Llundain ond mewn noson yn costio dim ond £8 mewn pentre bach gwledig o'r enw Tal-y-bont.

Oeddech chi yna yn gwrando ar Tacla yn chware miwsig Sipsi, ychydig o Charlie Parker, cwpwl o felodïau Ffrengig, a fersiynau newydd, gwyllt o ganeuon gwerin Cymraeg fel 'Deio i Dywyn'? Neu oeddech chi gartre yn syllu ar y bocs neu'n ffidlo gyda'ch ffôn symudol?

Y nos Fercher cynt, aeth Enid a fi i'r stiwdio yn Theatr y Werin i fwynhau noson gomedi – am y tro cyntaf erioed. Wydden ni ddim beth i'w ddisgwyl. Roedd yna lond y lle o bobl yn bloeddio chwerthin am ddwyawr solet wrth i Elis James a Carwyn Blayney danio'u llinellau fel bwledi – cyn lansio rhesiad o jôcs coch am yr Urdd ...

Math o *Jazz* Cymraeg oedd y noson gomedi hefyd, gyda'i pherfformiadau byw, byrfyfyr.

Felly byddwch yn cŵl a diffoddwch eich dyfeisiadau "clyfar". Mae 'na bobol ddifrifol o dalentog yn chwarae ar lwyfannau'r ardal y dyddiau hyn. Ac os yw Dr Jazz yn gallu gwella anhwylderau, cymaint mwy gwir yw hynny am 'bach o *Jazz* Cymraeg.

*Robat Gruffudd*